



Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Datrys Anghydfod Proffesiynol

Dyddiad Cadarnhau: 28/11/2018
Dyddiad Adolygu: 11/2020

	Disgrifiad o'r Rheswm dros Newid	Awdur	Awdurdodiad	Dyddiad cyhoeddi

1.0. **Rhagarweiniad**

1.1. O bryd i'w gilydd mae sefyllfaoedd yn codi lle mae ymarferwyr / gweithwyr un asiantaeth o'r farn nad yw penderfyniad un o weithwyr asiantaeth arall ynglŷn ag amddiffyn plentyn / oedolyn mewn perygl neu blentyn / oedolyn sydd angen cynllun gofal a chymorth yn un diogel. Gallai pobl anghytuno am nifer o wahanol bethau, ond mae'n fwyaf tebygol o ddigwydd ynghylch:

- Lefelau Angen
- Swyddogaethau a chyfrifoldebau
- Yr angen i weithredu
- Cyfathrebu

*Dalier Sylw – **Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i apeliadau Cynadleddau Amddiffyn Plant neu os oes anghydfod rhyngoch chi a'ch rheolwr, lle dylech ystyried defnyddio trefn eich asiantaeth ar gyfer codi pryderon.***

1.2. Diogelwch yr unigolyn, boed yn blentyn neu'n oedolyn, yw'r peth pwysicaf i'w ystyried pan gyfyd unrhyw anghydfod proffesiynol, ac wrth drafod unrhyw wahaniaeth barn dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r risgiau a all godi i'r plentyn neu'r oedolyn.

1.3. Dylai pob gweithiwr fod yn ffyddiog y gall herio penderfyniadau, gan feddu ar yr hawl i herio a bod yn gyfrifol am wneud hynny er mwyn hyrwyddo arferion gorau o ran diogelu amlasiantaethol. Mae'r polisi hwn yn rhoi'r gallu i weithwyr godi pryderon ynglŷn â phenderfyniadau gweithwyr proffesiynol neu asiantaethau eraill drwy:

- Osgoi anghydfod proffesiynol sy'n rhoi plentyn neu oedolyn mewn perygl neu'n tynnu'r sylw oddi ar y plentyn neu'r oedolyn
- Datrys anawsterau rhwng asiantaethau ac o fewn asiantaethau unigol yn chwim ac yn agored, ac
- Adnabod agweddau ar gydweithio sy'n peri problemau, lle mae diffyg eglurder, a mynd ati i'w datrys drwy ddiwygio protocolau a gweithdrefnau.

1.4. Mae cydweithio'n effeithiol yn dibynnu ar berthynas agored a gonest rhwng gwahanol asiantaethau. Mae datrys problemau'n rhan annatod o gydweithio proffesiynol a chydweithio i ddiogelu plant neu oedolion.

2.0. **Camau'r Polisi**

2.1. Dylai gweithwyr proffesiynol geisio datrys anghydfod drwy gael trafodaeth mewn da bryd er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl rhag niwed.

2.2. **Cam un – cynnwys y gweithiwr o'r asiantaeth / gwasanaeth arall (ymhen pum diwrnod gwaith)**

Dylai'r gweithiwr proffesiynol sydd â phryderon godi'r mater yn uniongyrchol â'r ymarferydd perthnasol. Dylai roi rhesymau pendant am yr anghydfod sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylid cael y drafodaeth hon cyn gynted â phosib, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Mewn rhai sefyllfaoedd gallai anghyfartaledd o ran statws neu brofiad atal rhai gweithwyr rhag medru datrys yr anghydfod heb gymorth.

2.3. Cam Dau – trafodaeth rhwng rheolwyr atebol (ymhen pum diwrnod gwaith wedi cam un)

2.4. Os na ddatryswyd y broblem yng ngham un, dylai'r gweithiwr gysylltu â'i goruchwyliwr neu reolwr atebol yn ei gwasanaeth neu asiantaeth ei hun, a ddylai wedyn gael trafodaeth â'r goruchwyliwr neu reolwr cyfatebol yn y gwasanaeth neu'r asiantaeth arall.

2.5. Cam tri – cyfeirio'r mater at y swyddogion diogelu arweiniol sydd wedi'u henwi/dynodi, neu uwch-reolwr gweithredol (ymhen pum diwrnod gwaith wedi cam dau)

2.6 Os na ddatryswyd y mater yng ngham dau, bydd y goruchwyliwr / rheolwr yn cyfeirio'r mater at y rheolwr gweithredol perthnasol neu'r cynrychiolydd a enwyd neu a ddynodwyd ar gyfer diogelu. Mae'n rhaid i'r rheolwyr hyn geisio datrys yr anghydfod proffesiynol drwy drafodaeth.

2.7. Cam pedwar – datrys y mater mewn cyfarfod dan gadeiryddiaeth Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (ymhen pum diwrnod gwaith wedi cam 3)

2.8. Mae'n rhaid i'r asiantaethau hynny sy'n ymwneud â'r achos yn uniongyrchol fynd ati i ddatrys unrhyw faterion gweithredol. Os na ddatryswyd y mater yng ngham tri, dylid gofyn i Gadeirydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (Plant/Oedolion) benodi aelod o'r Bwrdd o asiantaeth nad yw'n rhan o'r achos i gadeirio cyfarfod o'r uwch-reolwyr â'r cyfrifoldeb gweithredol mwyaf yn y mater. Yn y cyfarfod adolygir yr holl faterion dan sylw, a bydd cyfle olaf i'r asiantaethau sicrhau fod pawb wedi deall popeth cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

3.0 Nodiadau ychwanegol

Bob cam o'r broses mae'n rhaid cofnodi pob gweithred a phenderfyniad ar ddu a gwyn a rhannu'r wybodaeth â'r gweithwyr perthnasol, gan gynnwys y gweithiwr a gododd y pryder i ddechrau. Yn benodol, mae'n rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig rhwng y gwahanol asiantaethau ynglŷn â chanlyniad cytûn i'r anghydfod, a sut i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n parhau. Gallai fod yn fuddioli rai unigolion gael trafodaethau ar ôl datrys yr anghydfod, er mwyn meithrin perthynas waith dda.

Datrys Anghydfod Proffesiynol - Camau

Yn y lle cyntaf, dylai gweithwyr proffesiynol geisio datrys anghydfod drwy gael trafodaeth mewn da bryd er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl rhag niwed.

Cam 1

Dylai'r gweithiwr proffesiynol sydd â phryderon godi'r mater yn uniongyrchol â'r ymarferydd perthnasol; dylai gael rhesymau pendant dros yr anghydfod sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylid cael y drafodaeth hon cyn gynted â phosib, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Cam 2

Os na ddatryswyd y broblem yng ngham un, dylai'r gweithiwr gysylltu â'i goruchwyliwr neu reolwr atebol, a ddylai wedyn gael trafodaeth â'r goruchwyliwr neu reolwr cyfatebol yn y gwasanaeth/asiantaeth arall.

Cam 3

Os na ddatryswyd y mater yng ngham dau, bydd y goruchwyliwr / rheolwr yn cyfeirio'r mater at y rheolwr gweithredol perthnasol neu'r cynrychiolydd a enwyd neu a ddynodwyd ar gyfer diogelu. Mae'n rhaid i'r rheolwyr hyn geisio datrys yr anghydfod proffesiynol drwy drafodaeth.

Cam 4

Os na ddatryswyd y mater yng Ngham Tri, bydd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru'n penodi Aelod o'r Bwrdd o asiantaeth annibynnol i gadeirio cyfarfod o'r uwch-reolwyr â'r cyfrifoldeb mwyaf am yr achos.

Gwneir penderfyniad terfynol yn y cyfarfod

Bob cam o'r broses mae'n rhaid cofnodi pob gweithred a phenderfyniad ar ddu a gwyn a rhannu'r wybodaeth â'r gweithwyr perthnasol. Mae'n rhaid i hynny gynnwys cydsyniad ysgrifenedig rhwng yr asiantaethau ynghylch canlyniad cytûn i'r anghydfod a sut i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n parhau.